CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

226/04

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

# ARHOLIAD LLAFAR

# Dydd Iau, 30 Mawrth 2006

# HAEN UWCH

## CYFARWYDDIADAU I'R YMGEISYDD

**Tasg Grŵp (trafodaeth: dim mwy na 20 munud)** **40 marc**

**CYFNOD PARATOI**

- Caniateir hyd at 20 munud i chi baratoi ar gyfer y drafodaeth.
- Ni chaniateir defnyddio yn ystod y cyfnod paratoi unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.
- Caniateir i chi wneud nodiadau byr eich hunan yn ystod y cyfnod paratoi.

**CYFNOD ARHOLIAD**

- Trafodwch y cwestiynau gydag aelodau eraill eich grŵp gan gynnig rhesymau a thystiolaeth i gadarnhau eich gosodiadau.
- Caniateir i chi ddefnyddio'r nodiadau cyfnod paratoi yn unig.

***Ni chaniateir i chi ddefnyddio'r testun print na geiriadur yn yr arholiad nac yn ystod y cyfnod paratoi.***

***Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad. (Mae hyn yn cynnwys y cyfnod paratoi.)***

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**Naill ai:** **Y Mynydd Grug**

**Neu:** **Tylluan Wen**

Pa **themâu** a amlygir yn y ffilm a astudiwyd gennych?

Dadansoddwch y themâu drwy:

(i) sôn am rôl cymeriadau arbennig o fewn y themâu gan gyfeirio at olygfeydd perthnasol; [18]

(ii) sôn am y modd y mae'r cynhyrchydd wedi cyflwyno'r themâu i'r gwyliwr;

gallwch sôn am arwyddocâd
- cerddoriaeth a sain
- gwisgoedd
- colur
- deialog
- gwaith a thechneg camera
- goleuo ac ati; [18]

(iii) rhoi eich barn ar bwysigrwydd y themâu i'r ffilm fel cyfanwaith. [4]

*Wrth ateb y cwestiynau dylech gymharu'r ffilm â'r* ***testun printiedig pan fo hynny'n berthnasol.***

*Cofiwch ddefnyddio termau gwerthfawrogi llunyddiaeth/llenyddiaeth.*

*Cofiwch ddyfynnu a rhoi rhesymau dros eich barn.*

**[40]**